# Fframwaith Adfywio Ardal Ni

CYNLLUN ADFYWIO LLEOL

## ARDAL CAERNARFON



Ebrill 2025


CYNGOR GWYNEDD

# CYFLWYNIAD

# 01

Yn 2021, cytunodd Bwrdd Adfywio Cyngor Gwynedd i ddatblygu Fframwaith Adfywio newydd. Bwriad y Fframwaith yw sicrhau bod camau rhagweithiol yn eu lle er mwyn sicrhau cydweithio i wella'r ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

Yn rhan o'r Fframwaith hwnnw mae'r sir wedi ei rhannu yn 13 Ardal Adfywio Lleol a chynllun gweithredu wedi ei greu ar gyfer pob un o'r ardaloedd. Dyma'r cynllun gweithredu ar gyfer Ardal Caernarfon




Ardaloedd Adfywio Lleol:
Ardal Bangor, Ardal Dyffryn Ogwen, Ardal Bro Peris, Ardal Caernarfon, Ardal Bro Lleu / Nantlle, Ardal Pen Llŷn, Ardal Pwllheli, Ardal Porthmadog / Penrhyndeudraeth, Ardal Bro Ffestiniog, Ardal Bro Ardudwy, Ardal Bala Penllyn, Ardal Dolgellau ac Ardal Tywyn & Bro Dysynni.

Mae 'Adfywio' wedi ei ddiffinio fel ymdrech fwriadol i wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol neu yn ddiwylliannol. Pwysleisiwyd hefyd bod rôl allweddol i gymunedau adnabod blaenoriaethau lleol; a chyfraniad sefydliadau lleol mewn datblygu cynlluniau gweithredu.

Wedi proses ymgysylltu yn 2022 a gwrando ar farn pobl lleol, mae'r cynllun yn cynnwys gweledigaeth a blaenoriaethau pob cymuned ar gyfer y dyfodol. Gyda gweithio mewn partneriaeth yn greiddiol i'r cynllun y gobaith yw y bydd yn rhoi trywydd clir i gamau all ddod a newid cadarnhaol i gymunedau fydd yn newid bywydau er gwell. Nod y cynllun felly yw bod yn ganllaw i fuddsoddiad yn lleol yn ogystal â dylanwadu ar benderfyniadau polisi ym mhob maes - o iechyd ac addysg i drafnidiaeth a chynllunio.

# FFRAMWAITH ADFYWIO GWYNEDD



Mae ein Fframwaith Adfywio ar gyfer Gwynedd yn canolbwyntio ar ymdrechion bwriadol i wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol er mwyn creu cymunedau iach, llewyrchus, deinamig a chynaliadwy gan sicrhau mewnbwn a chyfraniad ystod eang o sefydliadau lleol.

## Gweledigaeth


**Datblygu a chefnogi cymunedau cynaliadwy sy'n iach, llewyrchus ac egniol gyda'r hyder i fentro, a gyda'r awydd a'r gallu i gyfrannu eu hatebion eu hunain i anghenion lleol ac i fanteisio ar gyfleoedd newydd**

## Ein Gwerthoedd

**Cynwysoldeb:** byddwn yn cynnwys rhagor o bobl yn ein gwaith
**Ymddiriedaeth**: byddwn yn parchu ac yn ymddiried yn y bobl rydym yn gweithio gyda nhw
**Cydweithio:** byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni
**Meddwl am y System Gyfan :** byddwn yn ystyried effaith lawn ein gweithredoedd
**Awydd am Newid :** byddwn yn herio confensiwn ac yn gweithredu.

## Ein Ffyrdd o Weithio

- Ar sail Asedau: gan adeiladu ar gryfderau'r ardal
- Cyd-berchnogaeth: gan rannu pŵer a'r cyfrifoldeb am ein dyfodol
- Datblygu Parhaus: byddwn bob amser yn ceisio newidiadau cadarnhaol
- Cymuned yn arwain: byddwn yn gweithredu dan arweiniad y Gymuned




Byddwn yn gweithredu'r Fframwaith Adfywio yn unol â Phum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



# GWAITH YMGYSYLLTU ‘ ARDAL NI’ 03

Bwriad ymgyrch Ardal Ni oedd cynnal sgwrs hefo cymunedau lleol er mwyn adnabod beth sy’n bwysig i drigolion a sut hoffent weld eu hardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf




Mae ymgynghori ac ymgysylltu gyda phob cymuned wedi bod yn rhan allweddol o lunio’r cynlluniau gweithredu. Roedd tri cham i’r ymgynghori a gynhaliwyd dan faner ‘Ardal Ni 2035’

- Cynhaliwyd trafodaeth cychwynnol gyda chynghorau tref a chymuned ynghyd â mudiadau, grwpiau a cynghorwyr lleol gan dderbyn 8 o ymatebion ar syniadau ynglŷn â beth ddylai fod yn flaenoriaethau lleol ar gyfer yr ardal yn y cyfnod hyd at 2035. Defnyddiwyd yr ymatebion yma fel sail ar gyfer yr ail-gam o ymgysylltu ehangach gyda’r cyhoedd.
- Trefnwyd ymgyrch ymgysylltu cyhoeddus er mwyn rhoi cyfle i breswylwyr leisio barn ynglŷn â’r heriau sy’n wynebu eu hardal nhw, yr hyn sy’n bwysig iddyn nhw a pha ddatblygiadau maen nhw am weld yn eu hardal dros y 10 i 15 mlynedd nesaf. Derbyniwyd 382 o ymatebion o ardal Caernarfon drwy holiadur ar-lein a phapur
- Yn dilyn sesiynau cyhoeddus cynhaliwyd gweithdai gyda sefydliadau i drafod cynlluniau gweithredu gan ganolbwyntio ar y materion a blaenoriaethau oedd wedi eu hadnabod yn lleol.

## Manylion Pellach

Mae gwybodaeth digidol wedi ei osod ar safle we Cyngor Gwynedd : https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dweud-eich-Dweud/Canlyniadau/2022/Canlyniadau-Ardal-Ni/Canlyniadau-Arolwg-Ardal-Ni-2035.aspx

Mae manylion pellach ar gael ar gyfer pob un o’r 13 ardal adfywio yn cynnwys

- Asesiadau Ardal (crynodeb ystadegol o’r ardal)
- Adroddiad Trafodaethau Cychwynnol (Cam 1)
- Adroddiad Canlyniadau Ymarferiad Ymgysylltu Cyhoeddus (Cam 2)

Yn unol â’r Gwerthoedd a’r Ffordd o Weithio sydd wedi eu hadnabod, mae’r wybodaeth ac adborth o waith ymgysylltu Ardal Ni wedi ei ddefnyddio wrth adnabod blaenoriaethau sirol a lleol.

# CYNLLUNIAU SIROL A STRATEGOL

## Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Mon




Cafodd canlyniadau Ardal Ni eu ystyried wrth baratoi asesiadau llesiant ardaloedd lleol. Ar gyfer cynllun 2023-28 tri Amcan Llesiant:

- Lliniaru effaith tlodi ar lesiant ein Cymunedau
- Lles a llwyddiant ein plant a phobl ifanc
- Cefnogi ein cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon.

## Cynllun Cyngor Gwynedd 2023 - 2028

Mae'r cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd nesaf o dan saith maes blaenoriaeth




**GWYNEDD YFORY**
Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc

**GWYNEDD LEWYRCHUS**
Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

**GWYNEDD GLYD**
Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau

**GWYNEDD OFALGAR**
Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

**GWYNEDD GYMRAEG**
Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

**GWYNEDD WERDD**
Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

**GWYNEDD EFFEITHLON**
Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon


## Awdurdod Cynllunio Lleol

Bydd gwybodaeth yn cael ei ystyried wrth ddatblygu gwaith cychwynnol - Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Mon 2015 - 2026

# ARDAL CAERNARFON HEDDIW



Mae ardal Caernarfon wedi ei leoli rhwng glannau'r Fenai a mynyddoedd Eryri. Mae tref hanesyddol Caernarfon yn ganolbwynt i'r ardal sydd hefyd yn cynnwys cymuned Y Bontnewydd.





## Crynodeb Ardal Caernarfon mewn ffigurau

### Cryfderau

*Yn cymharu yn well na chyfartaledd Cymru neu Wynedd*

- **82.9** – disgwyliad oes merched, yn uwch na ffigwr Cymreig o 82.3
- **78.5** – disgwyliad oes dynion, yn uwch na'r ffigwr Cymreig o 78.3
- **79%** - canran o'r boblogaeth oedran 26-64 sy'n weithgar economaidd sydd yn uwch na'r ffigwr Cymreig o 75%
- **86%** - sy'n medru siarad Cymraeg sydd yn uwch na'r ffigwr Gwynedd (65%) a Chymru (19%)
- **2%** o dai yn gartrefi gwyliau, sydd yn is na chyfartaledd Cymru (3%) a Gwynedd (11%)

*Ffynhonnell : Adroddiad Ymgynghoriaeth Burum 2021. Noder fod data wedi ei addasu oherwydd gwahaniaethau rhwng ffiniau rhai ardaloedd adfywio a ffiniau ffynonellau data)*

### Gwendidau

*Ddim yn cymharu gystal a chyfartaledd Cymru neu Wynedd*

- **4.19** – (cyfradd fesul 100) ymddygiad gwrthgymdeithasol gofnodwyd gan yr Heddlu sydd yn uwch na ffigwr Gwynedd o 2.52 a Chymru 2.55
- **77.7%** - canran oedolion gyda chymhwyster sydd yn is na chyfartaledd Gwynedd (83%) a Chymru (80%)
- **13.5% -** plant 4-5 oed sydd yn ordew sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru o 11.8%
- **22.7%** - canran o'r boblogaeth sy'n byw gyda salwch hir dymor sydd yn uwch na chyfartaledd Gwynedd o £20.5%
- **19%** o bobl mewn amddifadedd incwm sydd yn uwch na chyfartaledd Gwynedd (13%) a Chymru (16%)

## Barn Trigolion am yr ardal

### Beth sydd yn dda am yr ardal ?

- Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant (257)
- Yr amgylchedd naturiol ac hwylustod at fynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad (222)
- Treftadaeth a hanes yr ardal (202)
- Llwybrau cerdded a beicio a llwybr arfordir o safon (148)
- Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol 146
- Cyfleusterau hamdden a diwylliant - Canolfan Hamdden, Sinema, Llyfrgell ac ati (111)
- Gallu'r ardal i ddenu twristiaeth er budd economaidd (101)
- Mae'n ardal ddiogel (87)
- Cyfleusterau fel siopau, caffis a bwytai (78)

*(Ffynhonnell : Ymatebion Ardal Ni ardal Caernarfon. Nifer o ymatebion wedi eu derbyn mewn cromfachau)*

### Beth sydd yn ddim dda am yr ardal ?

- Mae sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal yn broblem (197)
- Mae angen mwy o gefnogaeth a buddsoddiad i adfywio canol tref Caernarfon (178)
- Diffyg tai addas a fforddiadwy i bobl leol i'w prynu neu'u rhentu (167)
- Mae'r economi leol yn fregus, nid oes digon o gefnogaeth i fusnesau ac mae siopau'n cau (166)
- Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol a camddefnydd o gyffuriau ac alcohol yn broblem yn yr ardal (162)
- Diffyg swyddi cyflog uchel a llawn amser yn lleol (141)
- Diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc (137)
- Mae tlodi yn broblem yn yr ardal (116)
- Mae nifer uchel o ail dai a thai haf yn yr ardal (111)
- Problemau yn ymwneud â pharcio, cyflwr ffyrdd a thraffig mewn sawl rhan o'r ardal (80)
- Trefniadau ar gyfer cerddwyr a cherbydau ar y Maes (79)

# ARDAL CAERNARFON YMHEN 15 MLYNEDD





Mae’r rhestr isod yn dangos ymatebion a dderbyniwyd yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus ‘Ardal Ni’. Mae’r materion wedi eu gosod yn ôl y nifer o ymatebion a dderbyniwyd, gyda’r materion a rhestrir gael eu hadnabod gan o leiaf 1 allan o 5 ymateb


## Prif faterion lleol wedi eu hadnabod yn ystod gwaith Ardal Ni

**Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn ardal Caernarfon dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?**

| Ranc | Prif Faterion / Blaenoriaethau | Nifer |
|---|---|---|
| 1 | Cynlluniau i wella edrychiad yr ardal - tacluso, mwy o finiau, blodau gwyllt ac ati | 188 |
| 2 | Cynlluniau i greu gwaith a swyddi gwerth uchel yn yr ardal | 171 |
| 3 | Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol yr ardal | 170 |
| 4 | Mae angen darparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc yr ardal a’u hannog i gymryd rhan fwy gweithredol yn y gymuned | 163 |
| 5 | Cynlluniau i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol | 159 |
| 6 | Cynlluniau i gefnogi busnesau a mentrau lleol i sefydlu ac i ffynnu | 136 |
| 7 | Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau’r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati | 129 |
| 8 | Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy effeithiol i gael gwell rheolaeth ar dwristiaeth a gwneud y mwyaf o'r potensial economaidd i bobl leol | 107 |
| 9 | Cynlluniau i gynnal a datblygu llwybrau cyhoeddus, llwybrau beicio a cherdded yr ardal | 93 |
| 10 | Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus lleol sy’n hygyrch, integredig ac addas i anghenion yr ardal | 76 |
| 11 | Mae angen gwell darpariaeth o fewn y maes iechyd a llesiant yn yr ardal yn ogystal a datblygiad hwb cymunedol i gyfeirio unigolion at wasanaethau addas | 73 |

# CYNLLUN GWEITHREDU


Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
|  **CYNLLUN CREU LLE CANOL TREF CAERNARFON**<br>(yn ymgorffori materion Ardal Ni)<br>B1. Cynlluniau i wella edrychiad yr ardal - tacluso, mwy o finiau, blodau gwyllt ac ati<br>B2. Cynlluniau i greu gwaith a swyddi gwerth uchel yn yr ardal<br>B6. Cynlluniau i gefnogi busnesau a mentrau lleol i sefydlu ac i ffynnu | 1.1 | Astudiaeth maes parcio Pool side | Cyngor Gwynedd | Trafnidiaeth Cymru | Gweithredol | Bl. 1-3 |
| | 1.2 | Prynu ac adfer eiddo gwag | Galeri | Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 1.3 | Cynllun Canfas | Galeri | Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 1.4 | Cynllun Arwyddo Canol Tref | Cyngor Gwynedd | Amrywiol | Gweithredol | Bl. 1-3 |
| | 1.5 | Cei Llechi - safle ger y maes parcio | Cyngor Gwynedd | Galeri, Ym Harbwr | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 1.6 | Astudiaeth Coaches | Cyngor Gwynedd | Ym Harbwr, Galeri, Rheilffordd Eryri | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 1.7 | 'Lle Da' - hwb cymunedol ar gyfer pobl ifanc | GISDA | Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, DWP | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 1.8 | Gwella edrychiad a golwg tref Caernarfon | HWB Caernarfon | Cyngor Gwynedd | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 1.9 | Pecyn eiddo gwag - canol tref | Cyngor Gwynedd | Sefydliadau lleol | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 1.10 | Cynllun Baneri | HWB Caernarfon | | Gweithredol | Bl. 1-2 |

# CYNLLUN GWEITHREDU

08

Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
|  **CYNLLUN CREU LLE CANOL TREF CAERNARFON** | 1.11 | Cynlluniau sirol megis Ailwefru, Dyfodol Digidol, Prynu'n lleol, Ffiws, Arfor | Darparwyr amrywiol | Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 1.12 | Hwb Busnes a'r hen Ganolfan Croeso | HWB Caernarfon | CARN | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 1.13 | Gwefan HWB Caernarfon<br>*Cefnogi busnesau'r dref* | HWB Caernarfon | Smart Gwynedd; Menter Môn | Rhagbaratoi | Bl. 1-2 |
| | 1.14 | Cynllun Wi-Fi | HWB Caernarfon | Menter Môn | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 1.15 | Cynllun Finyls | Cyngor Gwynedd | Cyngor Tref Caernarfon Perchnogion Eiddo | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | | | | | | |

# CYNLLUN GWEITHREDU

Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B2. Cynlluniau i greu gwaith a swyddi gerth uchel yn yr ardal** | 2.1 | Datblygu unedau cyflogaeth ar safle Peblig | Datblygwyr Preifat | | Datblygol | Bl 1-2 |
| **B3. Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol yr ardal** | 3.1 | Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd | Cyngor Gwynedd | Partneriaid Tai Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Trydydd Sector | Gweithredol | Bl 1-5 |
| | 3.2 | Darpariaeth oedolion ag anableddau dysgu yn Frondeg, Caernarfon | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Datblygol | Bl 3-5 |
| | 3.3 | Datblygiad safle Penrallt | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Rhagbaratoi | Bl 3-5 |
| | 3.4 | Datblygiad preswyl yn Cadnant | ADRA | Partneriaid Tai Gwynedd | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 3.5 | Fflatiau newydd i ward Cadnant a Peblig | ADRA | Partneriaid Tai Gwynedd | Gweithredol | Bl 1-2 |
| **B4. Mae angen darparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc yr ardal a'u hannog i gymryd rhan fwy gweithredol yn y gymuned** | 4.1 | Cynllun Lle Da - Hwb cymunedol ac i bobl ifanc | GISDA | Cyngor Gwynedd; DWP; Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr | Gweithredol | Bl. 1-2 |
| | 4.2 | Gwelliannau Canolfan Tŷ'r Ysgol | GISDA | Sefydliadau lleol | Datblygol | Bl. 1-2 |
| | 4.3 | Academi Cyfleon - profiadau gwaith a symud i waith | GISDA | Sefydliadau lleol | Datblygol | Bl. 1-2 |
| | 4.4 | Cynllun Selar Lle Da : Darpariaeth celfyddydol /creadigol i bobl ifanc. | GISDA | Cerdd Cymunedol Gwynedd, Frân Wen | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 4.5 | Datblygu adnoddau Clwb Hwylio Caernarfon | Pwyllgor Clwb Hwylio Caernarfon | Sefydliadau amrywiol | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |

# CYNLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B5. Cynlluniau i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol** | 5.1 | | | | | |
| **B7.Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati** | 7.1 | Canolfan Noddfa<br><br>*Gosod paneli solar a sefydlu trefn ynni fwy effeithlon* | Pwyllgor Noddfa | Cyngor Gwynedd | Ar waith (Haf 2024) | Bl. 1-2 |
| | 7.2 | Prosiect atal llifogydd Cadnant | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 7.3 | Cynllun Atal Llifogydd Dalgylch Gwyrfai | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Datblygol | Bl 1-2 |
| **B8. Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy effeithiol i gael gwell rheolaeth ar dwristiaeth a gwneud y mwyaf o'r potensial economaidd i bobl leol** | 8.1 | Cynllun Economi Ymweld Gynaliadwy Lleol | Cyngor Gwynedd | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 8.2 | Marchnata Caernarfon | Llety Arall | EcoAmgueddfa | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 8.3 | Placiau Dehongli<br>*I ddathlu treftadaeth Caernarfon.* | Cymdeithas Ddinesig Caernarfon | Cyngor Tref Caernarfon; Cyngor Gwynedd; Cronfa'r Loteri | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 8.4 | Llunio Mapiau a thaflenni Hyrwyddo Tref Caernarfon | HWB Caernarfon | Busnesau lleol | Gweithredol | Bl. 1-2 |

# CYNLLUN GWEITHREDU (PARHAD)



Rhagwelir y bydd cyfle i adolygu trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gweithredol yn yr ardal. Drwy weithio mewn partneriaeth bydd cyfle i gyd-lynu gweithgareddau isod, ac i ymateb i fylchau drwy gynllunio gweithgareddau ychwanegol

| Prif Fater | Rhif | Prosiect | Arwain | Partneriaid | Statws | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **B9. Cynlluniau i gynnal a datblygu llwybrau cyhoeddus, llwybrau beicio a cherdded yr ardal** | 9.1 | Cynllun Teithio Llesol : Caernarfon i Stad Cibyn | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Datblygol | Bl 1-2 |
| | 9.2 | Cynllun Teithio Llesol : Ysgol y Gelli | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Datblygol | Bl 1-2 |
| **B10. Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus lleol sy'n hygyrch, integredig ac addas i anghenion yr ardal** | 10.1 | Gwynedd Werdd – Trafnidiaeth Cyhoeddus | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Darparwyr | Cynllun Sirol - rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| **B11. Mae angen gwell darpariaeth o fewn y maes iechyd a llesiant yn yr ardal yn ogystal a datblygiad hwb cymunedol i gyfeirio unigolion at wasanaethau addas** | 11.1 | Hwb Cefnogi Pobl *(ac amrywiol weithgareddau llesiant)* | Cyngor Gwynedd | Porthi Dre | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 11.2 | Canolfan Integredig i Blant, Bodfan | Cyngor Gwynedd | Bwrdd Iechyd | Datblygol | Bl 3-5 |
| | 11.3 | Cynllun Capel Seilo | Pwyllgor Seilo / Seilo Cyf. | Grwpiau lleol | Rhagbaratoi | Bl 1-2 |
| | 11.4 | Beicio i Bawb | Antur Waunfawr | Cyngor Gwynedd | Gweithredol | Bl 1-2 |
| | 11.5 | Ardal Dechrau'n Deg | Cyngor Gwynedd | Llywodraeth Cymru | Gweithredol | Bl 1-2 |

# CYDLYNU A MONITRO



Bwriad y Cynllun Gweithredu yw ymgorffori prosiectau a gweithgaredd ystod eang o sefydliadau sy'n cyfrannu at adfywio a gwella Dalgylch Caernarfon. Mae hon yn ddogfen fyw, a bydd yn cael ei diweddaru o bryd i'w gilydd.

Fel rhan o'r Fframwaith Adfywio, bydd trefniadau ar gyfer monitro a chydlynu'r rhaglen waith yn cael eu sefydlu yn Nalgylch Caernarfon, gan ystyried strwythurau a threfniadau cydweithio presennol.

Bydd adroddiad blynyddol byr yn cael ei baratoi gan gynnwys diweddariad ar y cynllun gweithredu a'r holl brosiectau cysylltiedig, ac unrhyw gynnydd yn ystod y cyfnod.




Diolch am gyfraniadau cynrychiolwyr o sefydliadau lleol yn cynnwys :

- Cyngor Tref Caernarfon
- Cyngor Cymuned Bontnewydd
- Llety Arall
- Porthi'r Dre Caernarfon
- Galeri Caernarfon
- GISDA
- Antur Waunfawr
- Cymdeithas Ddinesig Caernarfon
- Hwyl y Bont
- CARN
- Llygaid Maesincla
- Rheilffordd Caernarfon
- Ymddiriedolaeth yr Harbwr
- Neuadd Gymunedol Bontnewydd
- Canolfan Noddfa
- Grŵp Cymunedol Twthill
- Clwb Rygbi Caernarfon
- Clwb Pel Droed Caernarfon
- Clwb Pel Droed Bontnewydd
- Clwb Criced Caernarfon
- BID Caernarfon
- Papur Dre
- Gwyl Fwyd
- Banc Bwyd Caernarfon
- Eglwys Noddfa